Malu gwydr gwin â sain, creu enfys droellog, defnyddio golau i wella clwyfau ac archwilio optoelectroneg ym maes meddygaeth – mae angen gwirfoddolwyr arnom!

A yw'r pethau hyn yn swnio'n ddiddorol? Oes gennych chi ddiddordeb mewn rhannu gwybodaeth am wyddoniaeth â chynulleidfa ifanc? Mae Labordy mewn Lori yn chwilio am wirfoddolwyr sydd â chefndir ym maes gwyddoniaeth neu beirianneg ar gyfer digwyddiadau ledled Cymru yn ystod y tymor ysgol.

Beth yw Labordy mewn Lori?

Labordy symudol rhyngweithiol yw Labordy mewn Lori, sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc (11–14 oed) archwilio gwyddoniaeth drwy arbrofion penagored. Bydd gwirfoddolwyr yn arwain y myfyrwyr drwy'r arbrofion (sy'n ymwneud ag optoelectroneg a meddygaeth, sain a chyseiniant, gwasgaru golau a lliwiau) a byddant yn gwneud yn siŵr bod pawb yn cael cyfle i gymryd rhan a chael profiadau ymarferol.

Beth y byddai'n rhaid i mi ei wneud?

Byddech yn goruchwylio arbrawf am y dydd. Byddem yn anfon yr holl wybodaeth gefndir atoch ymlaen llaw, ac ar fore'r digwyddiad byddech yn cael hyfforddiant llawn yn y labordy.

Rydym yn gofyn i wirfoddolwyr gynnig o leiaf un diwrnod ysgol llawn, ond mae croeso i chi ymuno â ni am gynifer o ddiwrnodau ag yr ydych yn dymuno. Yn gyfnewid am hynny byddwch yn cael profiad bythgofiadwy a fydd yn rhoi llawer o foddhad i chi, byddwch yn cael nwyddau rhad ac am ddim gan y Sefydliad Ffiseg a byddwch yn cael bod yn aelod cyswllt o'r Sefydliad Ffiseg am flwyddyn **www.iop.org**

Hoffech chi gael rhagor o wybodaeth?

I gael gwybod mwy am beth y mae gwirfoddoli ar Labordy mewn Lori yn ei olygu ac i ble y byddwn yn teithio, ewch i'n gwefan **www.labinalorry.org.uk** lle gallwch gofrestru'n wirfoddolwr hefyd, neu cysylltwch â mi gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod. Mae gwirfoddolwyr yn allweddol i lwyddiant Labordy mewn Lori, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn dod yn rhan o'r tîm.

Diolch yn fawr ac edrychaf ymlaen at eich gweld yn fuan.

James.

James Bamford, Uwch-gydlynydd Gweithrediadau Labordy mewn Lori, Y Sefydliad Ffiseg
Ffôn: 07920 118 673 E-bost: james.bamford@iop.org www.labinalorry.org.uk

IOP Institute of Physics

lab in a lorry
get connected to science

Taith 2014/15 – Amserlen tymor y haf			Nifer y gwirfoddolwyr ar hyn o bryd
Ebrill 2014			
Powys	29, 30 a 1 Mai	**Builth Wells High School,** College Road, Builth Wells, Powys, LD2 3BW.	2 / 2 / 1
Mai 2014			
Swansea	7 ac 8	**Maesteg School,** Fford Dysgu, Maesteg, CF34 0LQ.	0 / 0
Ceredigion	13 a 14	**Aberaeron Secondary School,** Stryd Y Fro, Aberaeron, SA46 0DT.	0 / 0
Gwynedd	15	**Ysgol Uwchradd Tywyn,** Station Road, Tywyn, LL36 9EU.	1
Conwy	20	**Ysgol John Bright,** Maesdu Road, Llandudno, LL30 1LF.	3
Sir Y Fflint	21 a 22	**John Summers High School,** Chester Road, Queensferry, CH5 1SE.	2 / 4
Mehefin 2014			
Powys	3 a 4	**Brecon High School,** Penlan Road, Brecon, LD1 6AS.	1 / 0
Caerphilly	5	**St Ceynydd Community School,** Trecenydd, Caerphilly, CF83 2RP.	1
Ynys Môn	10 & 11	**Ysgol Syr Thomas Jones,** Pentrefelin, Amlwch, Anglesey, LL68 9TH.	0 / 0
Rhondda Cynon Taff	17 - 19	**Mountain Ash Comprehensive School,** New Road, Mountain Ash, CF45 4DG.	0 / 0 / 0
Wrecsam	24 & 25	**Ysgol Bryn Alyn,** Church Street, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4HB.	0 / 0
Gorffennaf 2014			
Sir Benfro	1 a 2	**Ysgol Dewi Sant,** St David's, Pembrokeshire, SA62 6QH.	2 / 1
Eryri	9	**Ysgol Eifionydd,** Porthmadog, Gwynedd, LL49 9HS.	0
	11	**Ysgol Dyffryn Conwy,** Nebo Road, Llanrwst, Conwy, LL26 0SD.	0
Cardiff	15 & 16	**Barry Comprehensive School,** Port Road, Barry, CF62 8ZJ.	0 / 0
Bydd rhagor o ddigwyddiadau ledled y wlad yn cael eu hychwanegu at y rhestr. Bydd y daith yn cael ei chynnal yn ystod tymhorau ysgol a bydd yn para tan fis Mawrth 2015.			

Mae angen o leiaf 3 o wirfoddolwyr bob dydd ar Labordy mewn Lori i gynnal yr arbrofion, a gallwn gymryd hyd at 6 o bobl.

Cofrestrwch yn wirfoddolwr ar www.labinalorry.org.uk

IOP Institute of Physics

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

iop.org

cymru.gov.uk

neu defnyddiwch **#LabInALorry**

James Bamford, Uwch-gydlynydd Gweithrediadau Labordy mewn Lori, Y Sefydliad Ffiseg
Ffôn: 07920 118 673 E-bost: james.bamford@iop.org www.labinalorry.org.uk